**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021 DYDD IAU, 25 TACHWEDD 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HOLT (CADEIRYDD)

Councillors M. Day (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Summers

G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Prif Swyddog Adnoddau
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch
Rheolwr Tîm – Safonau Masnach

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Elias, M. Holland, T. Sharrem, B. Thomas a'r Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Gwnaed y datgtaniadau dilynol o fuddiant:<br><br>**Eitem Rhif 30: Cynllunio, Gweinyddu a Chost Etholiadau Lleol – 5 Mai 2022**<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr (Swyddog Canlyniadau)<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau (Dirprwy Swyddog Canlyniadau)<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Dirprwy Swyddog Canlyniadau)<br><br>Ar ôl derbyn cyngor, nodwyd y byddai'r swyddogion yn aros yn y cyfarfod os na chodir trafodaeth/cwestiynau manwl yn ymwneud â thaliadau penodol. Pe digwyddai hynny, byddai'r swyddogion yn gadael y cyfarfod.<br><br>**Eitem Rhif 31: Adroddiad Blynyddol 2020/2021 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>- Cynghorydd Wayne Hodgins<br><br>**Eitem Rhif 35: Rôl Anweithredol**<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai'n gadael y cyfarfod | |

| | | |
|---|---|---|
| | tra ystyrir yr eitem hon o fusnes. | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Cydymdeimlad**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda:<br>➢ Theulu Moira Wilcox (gwraig y cyn Gynghorydd Don Wilcox) a fu farw<br>➢ Teulu Eileen Davies (gwraig y cyn Gynghorydd Des Davies), a fu farw.<br><br>Dangosodd Aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyrau priodol at y teuluoedd.<br><br>**Salwch**<br><br>➢ Dywedwyd y cafodd y Cynghorydd Lyn Elias lawdriniaeth yn ddiweddar.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr priodol.<br><br>**Llongyfarchiadau**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i:<br><br>➢ Cymru Creations a wnaeth waith gwych i ddod â'r Ŵyl Ryngwladol Ffilmiau Plant i Flaenau Gwent.<br><br>Mae Gŵyl Ryngwladol Ffilmiau Plant Cymru wedi dathlu'r goreuon mewn rhaglenni ffilm rhyngwladol ar gyfer plant, myfyrwyr a gwneuthurwyr ffilm proffesiynol ym mhob rhan o'r byd. Roedd hyn yn cynnwys ffilmiau byr, ffilmiau nodwedd, animeiddiadau a ffilmiau sy'n ysbrydoli cenedlaethau iau.<br><br>Cynhaliwyd yr ŵyl dros 2 ddiwrnod yn Nhŷ Bedwellte, Tredegar ar 14-16 Hydref, gan ddod i ben mewn digwyddiad carped coch i ddathlu'r enillwyr.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr priodol. | |
| **No. 5** | **LLYFR COFNODION – GORFFENNAF-TACHWEDD 2021** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Gorffennaf-Tachwedd 2021 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIOL A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIOL A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION CYNLLUNIO)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 15** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 25** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 26** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 27** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 28** | **ADOLYGU POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n cynnig newid i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ac esboniodd yr effaith y byddai hyn ei gael ar yr MRP wrth symud ymlaen.<br><br>Ar hynny, tynnodd y Prif Swyddog sylw at y pwyntiau perthnasol a gynhwysir ynddo:<br><br>- Yn ystod Chwefror/Mawrth 2021, roedd y Cyngor wedi cyflogi Cynghorwyr Trysorlys i gynnal adolygiad o'r polisi MRP presennol. Roedd yr adolygiad wedi dynodi'r cyfle i newid dwy elfen o'r polisi cyfredol, a fyddai'n rhoi buddion cadarnhaol i'r Cyngor drwy ostwng y tâl MRP blynyddol tan 2031/32 ar gyfer benthyca heb ei gefnogi a 2057/58 ar gyfer benthyca a gefnogir.<br><br>Rhoddir manylion y newidiadau arfaethedig yn Adran 6 yr adroddiad a maent yn cynnwys:<br><br>• newid yn yr elfen benthyca a gefnogir o'r MRP o 2% llinell syth i sail blwydd-dal 50-mlynedd; a<br><br>• newid yn elfen benthyca heb gael ei gefnogi o'r MRP o sail blwydd-dal i sail blwydd-dal cyfartalog wedi ei bwysoli.<br><br>- Nodwyd fod y dull blwydd-dal yn rhoi cost tecach na rhandaliadau cyfartal oherwydd ei fod yn rhoi ystyriaeth i | |

werth amser, er enghraifft mae talu £100 mewn 10 mlynedd yn llai o faich na thalu £100 yn awr.

- Cynigiwyd hefyd y byddai dull symlach arall yn defnyddio dull oes ased cyfartalog ar sail blwydd-dal ar gyfer pob prosiect cyfalaf benthyca heb ei gefnogi bob blwyddyn yn hytrach nag ar brosiectau unigol.

- Roedd angen i’r Cyngor benderfynu ar lefel o MRP a ystyriai yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i’r canllawiau MRP a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd fod y newidiadau arfaethedig yn gydnaws â’r enghreifftiau a roddwyd o fewn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr MRP a rhoddir manylion hyn yn Atodiad 1 yr adroddiad.

- Mae’r tabl ym mharagraff 5.1.1 yr adroddiad yn dangos effaith cost MRP a fyddai gan y fethodoleg ac os cytunwyd, disgwylid i’r polisi diwygiedig ostwng cost MRP o 2022/23 ymlaen.

- Dan y polisi presennol amlygwyd y byddai’r cost MRP 2022/23 yn £4.47m yn gostwng i £1.74m dan y polisi diwygiedig ac y byddai’n cynyddu ym mlynyddoedd y dyfodol. Felly, yn seiliedig ar dybiaethau cyfredol yr MTFS, yn fwy na £750,000. Fodd bynnag, hysbyswyd Aelodau y cafodd yr adroddiad ei ystyried ers hynny yn y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd dadansoddiad manwl pellach ac amcangyfrifir yn awr fod yr effaith gadarnhaol yn £1.3m.

- Er yr amcangyfrifwyd y byddai’r cost MRP yn cynyddu mewn blynyddoedd dilynol, byddai’r cost hwn yn is na’r amcangyfrifon presennol a byddai’n lliniaru rhai o’r pwysau cost a ddynodwyd yn flaenorol a gostwng y bylchau presennol a aseswyd yn y gyllideb. Roedd yn bwysig nodi fod y newidiadau hyn yn ddarpariaethol ac na chynigir diwygio unrhyw gyfrifiad blynyddoedd blaenorol, ac er bod yr MRP yn ofyniad o God Ymarfer CIPFA, mae dal i fod angen i’r Cyngor godi swm darbodus i’r cyfrif incwm a gwariant i lanw’r taliadau ar ddyledion heb eu talu. Nodwyd na fyddai’r newid hwn yn effeithio ar yr ad-daliadau dyled a wnaeth y Cyngor ond yn hytrach ar y ddarpariaeth sydd angen ei gosod o’r neilltu.

| | | |
|---|---|---|
| | Dechreuodd Arweinydd y Grŵp Lafur drwy fynegi ei farn pe cytunid ar ddiwygio'r polisi MRP, y byddai hyn fan leiaf oll yn trosglwyddo'r ddyled i genedlaethau'r dyfodol. Felly teimlai y dylid sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol arbennig er mwyn i Aelodau gael mwy o ddealltwriaeth a thrafod goblygiadau'r diwygiad polisi a thrafod opsiynau ar y ffordd ymlaen. Dywedodd y cafodd y polisi MRP blaenorol ei gytuno yn 2017 ac y gwnaed addewidion yn ystod oes y polisi hwnnw y byddid wedi dynodi ffyrdd o ad-dalu'r arian i ostwng pwysau cost yn y dyfodol.<br><br>Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy gyfeirio at fenthyciad y prosiect rheilffordd a allai hefyd fod â goblygiadau posibl ar yr MRP a dywedodd fod angen mwy o eglurdeb ar yr holl oblygiadau a fanylir o fewn yr adroddiad. Cytunodd, er ei bod yn gywir i ddiwygio ac adolygu'r polisi MRP (roedd Cynghorau wedi gwneud hynny mewn blynyddoedd blaenorol yn cynnwys 2015/16 oherwydd llymder ariannol difrifol), fodd bynnag roedd y Cyngor yr adeg honno yn 2015/16 wedi dynodi llwybrau allan o'r cyfyngiadau (h.y. posibilrwydd uno gydag awdurdod lleol arall) ond dywedodd nad yw'r Cyngor presennol wedi dynodi unrhyw lwybrau ymlaen. Daeth Arweinydd y Grŵp Llafur i ben drwy ategu ei gonsyrn y caiff y ddyled hon ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol a dywedodd na fedrai, felly, gymeradwyo Opsiwn 2.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud na fyddai dyled y Cyngor yn newid, ond mai lefel y ddarpariaeth a fyddai'n cael ei haddasu a'i defnyddio i wrthbwyso'r ddyled. Yn ystod 2017 cafodd y Cyngor gyfle, yn unol gyda'r rheolau a rheoliadau, i adolygu'r MRP ac ôl-ddyddio'r polisi oedd wedi bod o fudd o dros £15.5m i'r awdurdod dros gyfnod o 5 mlynedd. Pe na fyddai'r polisi hwn wedi ei fabwysiadu, mae'n debygol iawn y byddid wedi gorfod ystyried toriadau mewn gwasanaethau ac mewn rhai achosion atal gwasanaethau, colledion swyddi a chynnydd mewn lefelau treth gyngor ac ni chredai na fyddai unrhyw weinyddiaeth heb fanteisio ar yr un cyfle.<br><br>Yng nghyswllt y dyfodol, caiff y polisi ei ddiwygio mewn 4 blynedd a byddai'n rhoi sefyllfa fwy cadarnhaol; fodd bynnag, pe na fyddai'r diwygiad hwn yn cael ei fabwysiadu, yna byddai'r Cyngor yn dychwelyd i sefyllfa'r MRP cyn 2017 a byddai hyn yn effeithio ar sefyllfa'r gyllideb gan dros £3.5m. Roedd hyn yn ddull call i weithredu a dywedodd na fyddai dyled yn cael ei gwthio ar weinyddiaethau'r dyfodol – dywedwyd y byddai angen ad-dalu dyled beth bynnag ac na fedrid talu mwyafrif dyled yn oes un | |

weinyddiaeth ac yn hanesyddol fod dyled wedi ei throsglwyddo o un weinyddiaeth i'r llall ond roedd y ddyled yn parhau'r un fath, y ddarpariaeth fyddai'n newid.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud ei fod yn credu'n gryf na fyddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Prif Swyddog Adnoddau wedi ystyried cyflwyno adroddiad os teimlid y byddai'n cael effaith niweidiol hirdymor ar yr awdurdod ac os felly, ni fyddai'n cefnogi'r cynnig ac ychwanegodd y gallai goblygiadau posibl peidio diwygio'r polisi greu problemau pellach ar gyfer gweinyddiaethau'r dyfodol. Mae angen ailosod y sefyllfa ariannol o fewn yr awdurdod o sefyllfa gosod y gyllideb a hefyd y sefyllfa yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn a chaiff hyn ei gyflawni ac roedd yn hyderus y byddai hyn yn cael ei gyflawni gan awdurdodau yn y dyfodol.

Daeth Arweinydd y Cyngor i ben drwy ddweud na fyddai'r benthyciad proseict rheilffordd o £70m a gytunwyd ac a drafodwyd nifer o weithiau yn cael unrhyw effaith ar y polisi MRP - byddai'r incwm o'r buddsoddiad hwnnw yn gwrthbwyso'r benthyciad a hefyd yn cael effaith negyddol ar y polisi MRP.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur mai'r pwynt allweddol i'w nodi (fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, a ystyrir nesaf yr ar agenda) oedd bod y cyllid a dderbyniodd y Cyngor ar sail arian gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu drwyddi draw gan £11.1m rhwng 2016/17 a 2021/22 ac oherwydd goblygiadau cost y pandemig (y byddai'n rhaid ei ad-dalu rywbryd yn y dyfodol), dim ond oherwydd cyllid Caledi Llywodraeth Cymru y mae'r Cyngor yn bodoli. Aeth ymlaen drwy ddweud y dylai'r Cyngor fod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol gan y gall amser ddod pan efallai na fydd y Cyngor yn medru darparu gwasanaethau. Cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur y dylid cymeradwyo Opsiwn 2 a sefydlu Gweithgor Aelodaeth Trawsbleidiol i ystyried yr opsiynau wrth symud ymlaen.

Ategodd Arweinydd y Cyngor, pe na byddai'r Cyngor wedi dilyn y dull a wnaeth yn 2017, y gallai o bosibl fod wedi torri ar wasanaethau ac effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Yng nghyswllt cynlluniau wrth gefn, cafodd dros £10m ei gynilo yn y cyfnod hwn oedd yn fwy na ddigonol i wrthbwyso unrhyw faterion MRP a lliniaru unrhyw gynnydd treth gyngor a thoriadau i wasanaethau. Dywedodd fod lefel pwysau cost tu allan i'r MRP yn effeithio ar bob awdurdod a byddai hyn yn parhau i gael eu trin. Dywedodd eto na fyddai'r cynnig wedi ei gyflwyno i'r Cyngor pe

byddai'n cael effaith niweidiol ar y sefyllfa ariannol yn y dyfodol – roedd eisiau bod yn rhan o Gyngor sy'n parhau i symud ymlaen yn ariannol, yn bragmatig ac yn gyfrifol a dywedodd mai diwygio'r polisi MRP oedd y peth cyfrifol i'w wneud.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn falch y bu cyfle ar ddechrau'r tymor i roi'r Cyngor mewn gwell sefyllfa ariannol ond mynegodd ei bryder nad oedd penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn cyfnodau 'rhwyddach' ar gyfer y dyfodol hirdymor ac efallai y byddai'n rhaid i'r weinyddiaeth wynebu toriadau mewn gwasanaethau ac yn gorfod defnyddio'r MRP i liniaru'r materion hyn. Daeth i ben drwy ofyn i'r opsiwn gael ei ailystyried gan Weithgor Trawsbleidiol er mwyn atal dyled rhag cael ei gwthio i weinyddiaethau'r dyfodol.

Dywedodd Aelod ei fod hefyd yn falch na fu unrhyw doriadau i wasanaethau hyd yma ond cytunodd y dylid sefydlu gweithgor i ystyried yr opsiynau yn y dyfodol – dywedodd y cafodd gweithgorau eu cynnull yn flaenorol pan gynigiwyd unrhyw newidiadau ariannol mawr ac roedd hwn yn un newid o'r fath.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor i gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd yr Opsiwn.

Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei farn, pe cytunid ar ddiwygio polisi, y byddai hyn fan leiaf oll yn trosglwyddo dyled i genedlaethau'r dyfodol. Felly dylid sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol penodol fel y gallai Aelodau sicrhau mwy o ddealltwriaeth a thrafod goblygiadau'r diwygiad polisi a thrafod opsiynau ar y ffordd ymlaen, yn unol â'r cyhoeddiad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ar y setliad Llywodraeth Leol ar 22 Rhagfyr 2021. Ar hynny, cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.

Wedyn cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi yng nghyswllt y ddau Opsiwn.

**O blaid Opsiwn 1 –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, K. Hayden, H. McCarthy, M. Moore, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.

**O blaid Opsiwn 2 –** Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, J. P.

| | | |
|---|---|---|
| | Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, G. Thomas, J. Wilkins.<br><br>**Felly cafodd y bleidlais ar Opsiwn 2 (opsiwn a ffafrir) <u>ei chario.</u>**<br><br>Nodwyd fod y Cynghorydd J. Millard wedi ymuno â'r cyfarfod yn ystod y broses pleidleisio, felly ni chymerodd ran yn y bleidlais.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2 sef newid elfen benthyca a gefnogir y cyfrifiad MRP o 2% llinell syth i sail blwydd-dal 50-mlynedd a newid elfen benthyca nas cefnogir o gyfrifiad yr MRP o sail blwydd-dal asedau unigol i sail blwydd-dal cyfartalog wedi'i bwysoli, Daw'r newid hwn i rym o 1 Ebrill 2021.<br><br>Mae cyfrifiad yr MRP a gynigiwyd yn Opsiwn 2 yn gydnaws gyda'r enghreifftiau a roddir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar MRP. | |
| **No. 29** | **<u>STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL 2022/23 I 2026/27</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fyr am yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (MTFS) a'r asesiad diweddaraf o sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Mae'r MTFS yn dod ynghyd â'r holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn ffurfio'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn cynnwys rhagolwg dros y pum mlynedd nesaf i asesu'r gofynion gwariant y mae'r Cyngor yn debyg o'u hwynebu i gyflenwi'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac yn amlygu lefel y toriadau (gostwng neu atal gwasanaethau) y byddai angen eu gwneud i sicrhau y gallai'r Cyngor osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn.<br><br>Mae'r MTFS arfaethedig yn broses a dull ailadrodd a fyddai'n datblygu a chael eu mireinio wrth i'r sefyllfa cyllid gan Lywodraeth Cymru ddod yn gliriach ac adolygiadau busnes strategol yn cael eu datblygu a'u gweithredu ymhellach.<br><br>Yn seiliedig ar y tybiaethau yn y MTFS a'r pwysau cost a ddynodir | |

yn Atodiad 2 yr adroddiad, nodwyd y rhagwelir bwlch cyllideb o £21m dros y 5 mlynedd nesaf ac yn seiliedig ar yr amcangyfrif cyfredol o'r hyn a gyflawnir gan yr Adolygiadau Busnes Strategol o gymharu gyda'r bwlch cyllideb a ddynodir yn y MTFS, mae bwlch cyllid gweddilliol o £4m yn 2022/23 ac mae hyn yn amrywio rhwng £2.3m a £2.7m mewn blynyddoedd dilynol.

Mae MTFS presennol y Cyngor yn cynnwys nifer o dybiaethau sy'n effeithio ar lefel ei incwm a gwariant. Gallai newidiadau yn y tybiaethau hyn gael effaith sylfaenol ar y bwlch cyllideb dros y 5 mlynedd nesaf. Cafodd effaith newid 1% ar y prif dybiaethau ei gyfrif a rhoddir manylion hynny ym mharagraff 5.2.2 yr adroddiad.

Daeth y Prif Swyddog i ben drwy ddweud fod y Cyngor yn defnyddio'r MTFS ar gyfer dibenion cynllunio i roi arwydd o'r asesiadau ariannol am y 5 mlynedd nesaf ac yn rhan o fframwaith rheoli ariannol y Cyngor. Caiff hyn ei ddilyn gan ddatblygu a chytuno ar y gyllideb flynyddol a fyddai'n dechrau yn dilyn cadarnhad o setliad darpariaethol llywodraeth lleol a ddisgwylir o setliad Llywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr 2021.

Cyfeiriodd Aelod at y gofynion gwariant dros y 5 mlynedd nesaf a gofynnwyd os y gwnaed darpariaethau ariannol o fewn yr MTFS yng nghyswllt CCTV a'r gwaith iechyd, diogelwch a chydraddoldeb a ddynodwyd yng Ngwarchodfa Natur Cwmcelyn. Byddai angen buddsoddiad ariannol yn y ddau faes hyn yn y 5 mlynedd nesaf.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y gyllideb ddrafft wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer CCTV yn seiliedig ar y ddarpariaeth cyllid presennol oedd wedi cynyddu'n gronnus gan ymchwydd 2% oherwydd chwyddiant. Nodwyd y cyflwynir adroddiad drwy'r broses ddemocrataidd yn yr ychydig fisoedd nesaf yng nghyswllt darpariaeth CCTV ac os oedd gofynion pellach y dylid eu hystyried, caiff hyn ei gynnwys yn y pwysau cost a'r gyllideb unwaith y derbyniwyd y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru. Yng nghyswllt Gwarchodfa Natur Cwmcelyn, ni wyddai'r swyddog am unrhyw ddyraniad penodol a neilltuwyd ar gyfer y gweithiau hyn.

Dywedodd yr Aelod iddi gael ei hysbysu fod y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol wedi ystyried y gwaith ynghylch Gwarchodfa Natur Cwmcelyn ac y soniwyd am swm o £70-80,000 am atgyweirio'r bont. Fodd bynnag, os oes angen trin materion iechyd, diogelwch a chydraddoldeb yn nhermau'r llwybrau, byddai hyn yn cynyddu'n sylweddol faint o arian fyddai ei angen i godi'r Warchodfa Natur i'r

| | | |
|---|---|---|
| | safon.<br><br>Atebodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai hon yn broses ailadrodd ac os dynodir unrhyw bwysau cost newydd neu ychwanegol y caiff y rhain eu hystyried fel rhan o broses gosod y gyllideb wrth symud ymlaen.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn disgwyl i'r Cyngor gytuno ar unrhyw gynnydd treth gyngor yn y cyfarfod. Byddai hynny i gyfarfod yn y dyfodol ei benderfynu ond dywedodd ar gyfer dibenion cynllunio yn unig bod yr MTFS wedi tybio cynnydd blynyddol o 4% yn lefel y dreth gyngor.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, er bod hwn yn adroddiad bwysig, ei fod yn cynnwys gwybodaeth dybiannol ar y cam hwn gan ddisgwyl y cyhoeddiad ar setliad darpariaethol llywodraeth leol ar 22 Rhagfyr. Felly cynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod hon yn ddogfen dybiannol a ddefnyddir ar gyfer cynigion modelu yn unig gan y cyfrifyddion ac uwch swyddogion i gyfrif ffigur gwaelodlin. Mae hefyd yn ddogfen allweddol ar gyfer cynllunio ariannol ac mae'r fframwaith strategol a gaiff ei ddiwygio yn rheolaidd a'r tybiaethau yn hynny yn seiliedig ar gyllideb arian gwastad. Byddid yn cynhyrchu cyllideb derfynol unwaith y derbyniwyd y setliad gan Lywodraeth Cymru ar 22 Rhagfyr. Daeth yr Arweinydd i ben drwy gynnig cymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol i'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- cymeradwyo'r MTFS a nodi'r dilynol:<br>- y rhagolwg o fwlch cyllido ar gyfer cyfnod y MTFS;<br>- y pwysau cost a ddynodwyd yn Atodiad 1 y MTFS; a<br>- rhagolwg cyflawniad ariannol yr Adolygiadau Busnes Strategol a roddir yn Atodiad 2 y MTFS. | |
| **No. 30** | **<u>DRAFFT ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch am yr adroddiad sy'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnwys y prif gynigion a gynhwysir yn adroddiad drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) fel y cyfeiriant at Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Aeth y swyddog ymlaen drwy dynnu sylw at y pwyntiau dilynol:<br><br>- Mae'n ofyniad gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) fod Adroddiad Blynyddol y Panel yn dod i rym o 1 Ebrill ac yn y rhan fwyaf o flynyddoedd mae hyn yn gydnaws gyda threfniadau ariannol a gweinyddol pob awdurdod. Fodd bynnag, pan etholir cynghorau newydd, byddai rhai o benderfyniadau'r Panel yn dod i rym ar gyfer y tymor bwrdeisiol newydd.<br><br>Byddai'r trefniadau bwrdeisiol newydd yn dod i rym ar 9 Mai 2022 yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Felly mae gan yr Adroddiad Blynyddol ddau ddyddiad gweithredu gwahanol fel a nodir islaw:<br><br>Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 8 Mai 2022, byddai'r holl benderfyniadau a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau i fod mewn grym yng nghyswllt prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref.<br><br>Yn weithredol o 9 Mai 2022 (y flwyddyn fwrdeisiol newydd), byddai'r penderfyniadau a nodir yn Adrannau 3 a 13 yr adroddiad yn weithredol i brif gynghorau a chynghorau cymuned a thref.<br><br>- Nodwyd y caiff cyflog sylfaenol cynghorwyr prif gynghorau a etholir yn etholiadau lleol Mai 2022 ei ailosod i alinio gydag Arolwg Blynyddol Enillion fesul Awr (ASHE) 2020 ac y byddai'r swm hwn yn £16,800.<br><br>- Mae Tabl 2.3.3 yn rhoi manylion talu cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau ar gyfer 2022/23. Mae'r cynnydd a gynigir yn amrywio o 10.5% i 19%.<br><br>Daeth y Rheolwr Datblygu Sefydliadol – Cyflogres, Iechyd a Diogelwch i ben drwy amlinellu'r opsiynau a gynhwysir ym mharagraff 3 yr adroddiad.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor wedi ystyried y drafft adroddiad a'i drafod yn faith ar 8 | |

Tachwedd 2021. Teimlai'r Pwyllgor yn gryf na fedrai gefnogi'r cynnydd gormodol a gynigiwyd yn lefelau cydnabyddiaeth ariannol a nodir yn nrafft adroddiad y Panel ar gyfer 2022/23 (ar wahân i'r argymhellion yn cyfeirio at y cyfraniadau tuag at gost gofal a chymorth personol) yn yr hinsawdd presennol o lymder fel canlyniad i Covid-19, cynnig tâl isel y Llywodraeth i staff y Cyngor o 1.75% ac i weithwyr GIG a roddodd eu hunain mewn risg drwy gydol y pandemig ac oherwydd y sefyllfa fod rhai gweithwyr allweddol yn dal i ennill yr isafswm cyflog.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol fod y galw yn isel iawn yn nhermau hawliadau am gost gofal a chymorth personol.

Ategodd Arweinydd y Grŵp Llafur sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a dywedodd y credai'r Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Lleiafrifol nad dyma'r amser cywir i gynnig unrhyw gynnydd mewn lefelau cydnabyddiaeth ariannol a dywedodd fod angen i Aelodau gefnogi'r gweithlu ar yr adeg yma.

Aeth ymlaen drwy gyfeirio at Gadeirydd Pwyllgor y caniatawyd iddo gymryd lwfans cyfrifoldeb arbennig gyda chorff allanol a mynegodd ei gonsyrn, er nad oedd hyn yn torri'r rheolau, gan ategu ei sylwadau mewn cyfarfod presennol nad oedd hyn yn iawn o safbwynt foesol. Yn ychwanegol, cyfeiriodd at benodiadau 'llechwraidd' dau Aelod ar Fwrdd Silent Valley Waste Services, a mynegodd na fu'r penodiadau hyn yn ddigon tryloyw (o safbwynt cyhoeddus), pwynt y bu'n ei wneud yn gyson am y 4 mlynedd ddiwethaf.

Parhaodd Arweinydd y Grŵp Llafur drwy ddweud yr hysbyswyd Aelodau ar ddechrau'r broses, pan fyddai'r adolygiad o Silent Valley wedi gorffen, y byddai penodiadau Aelodau hyn yn dod i ben; fodd bynnag teimlai y caniatawyd i'r Aelodau hyn barhau yn eu swyddi nes i dymor y Cyngor ddod i ben oherwydd fod hyn yn ddull arall i dalu dau lwfans cyfrifoldeb uwch ychwanegol. Ychwanegodd hefyd ei fod yn dal heb weld adroddiad gan Aelodau Bwrdd yng nghyswllt eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd Aelod arall ei fod wedi codi mater talu dau lwfans cyfrifoldeb uwch mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oherwydd y gwnaed nifer o hawliadau am ad-dalu'r arian hwnnw yng nghyfarfod gwreiddiol y Cyngor lle trafodwyd hyn. Bu hefyd beth dryswch yn y cyfarfod

hwn fod hyn yn erbyn y rheolau ond cadarnhawyd y caniateir hyn o fewn rheolau ac adolygiadau'r Panel.

Dywedodd Aelod arall fod ei bod yn bwysig iawn bod yn agored a thryloyw mewn bywyd cyhoeddus a dywedodd fod Arweinydd y Grŵp Llafur yn cyflawni dwy rôl ond mai dim ond am un y mae'n derbyn taliad.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud yng nghyswllt y penodiad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, fel y dywedwyd yn y cyfarfod blaenorol, y credai mai'r Aelod oedd yr unigolyn gorau ar gyfer y rôl ac ei bod yn rhan o'r gofynion yn nhermau penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol ac a fyddai'n cael eu cadarnhau gan Weinidog Llywodraeth Cymru, os nad oedd unrhyw amgylchiadau lliniarol, y dylai unrhyw aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol ddod o ward sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Cafodd yr Aelod ei benodi i'r swydd o ddechrau ei thymor ac felly mae dadl gref dros barhad ac mae'r penodiad yn cael ei ganiatau'n llwyr o fewn y rheolau.

Yng nghyswllt Silent Valley, mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'r hyn a gytunwyd yn 2017 lle cynhelid adolygiad o'r sefydliad ac roedd y Cyngor wedi cytuno'n unfrydol i benodi dau Aelod i'r Bwrdd fel cyfarwyddwyr - ni fu unrhyw ddiffyg tryloywder am y penodiadau hyn ac nid oedd dim wedi ei guddio. Cafodd yr apwyntiadau i Fwrdd Silent Valley Waste Services ei gymeradwyo yn y Cyngor Blynyddol a chânt eu cynnwys yn flynyddol o fewn y rhestr o gyrff allanol, felly ni fu unrhyw ddiffyg tryloywder am y penodiadau hyn

Yng nghyswllt y sylw a wnaed am Arweinydd y Grŵp Llafur am Arweinydd y Grŵp Llafur yn ymgymryd â dwy rôl, fel hyn y bu hi bob amser ac roedd yn briodol gan fod Arweinydd yr Wrthblaid oedd yn derbyn lwfans cyfrifoldeb uwch, yn cymryd cyfrifoldeb am gadeirio Pwyllgor Craffu fel yr oedd Arweinwyr eraill yr Wrthblaid wedi ei wneud yn y gorffennol.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur nad fel hyn y mae hi mewn awdurdodau eraill ledled Cymru a'i fod wedi cytuno cadeirio Pwyllgor Craffu yn lle i'r Cyngor orfod talu lwfans cyfrifoldeb arbennig arall. Ailddywedodd fod Silent Valley yn benodiadau 'llechwraidd' a mynegodd ei bryder am faint o amser a gymerwyd i gynnal yr adolygiad o'r sefydliad a dywedodd ei fod yn credu'n gryf fod hyn yn ddull arall a ddefnyddid i dalu dau lwfans cyfrifoldeb

| | | |
|---|---|---|
| | uwch hyd at ddiwedd tymor y Cyngor.<br><br>Dywedodd Aelod fod Trefil, sy'n rhan o Ward Sirhywi, hefyd o fewn ffiniau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Dywedodd yr Aelod oedd hefyd wedi ei benodi i Awdurdod y Parc yn flaenorol tra'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu y bu'n rhaid iddo ymddiswyddo o Awdurdod y Parc fel mater o egwyddor oherwydd yr ymrwymiadau gwaith ac amser sydd eu hangen i ymgymryd a rôl Cadeirydd Pwyllgor Craffu.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn os oedd yn angenrheidiol i'r penodiad fod ward y sawl a benodir yn dod o fewn ffiniau'r Parc, dywedodd yr Arweinydd yr awgrymwyd yn gryf y dylai ward y cynrychiolydd a benodir ddod o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol a'i ddealltwriaeth oedd y byddai'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhelliad cryf i'r cyfeiriad hwn.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod cynrychiolwyr blaenorol wedi eu penodi i Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd â'u ffiniau tu allan i ffiniau'r Parc. Dywedodd y teimlai fod hyn yn hurt a bod yr Arweinydd yn camarwain y Cyngor a gofynnodd am gael gweld datganiad pendant i'r perwyl hwnnw.<br><br>Rhoddodd Arweinydd y Cyngor sicrwydd i'r Aelod nad oedd erioed wedi ac na fyddai byth yn camarwain y Cyngor ac ategodd fod hyn yn argymhelliad cryf h.y. y dylai ward yr Aelod a benodir i Awdurdod Parc Cenedlaethol ddod o fewn ffiniau'r Parc.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan gynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid cymeradwyo Opsiwn 2 yn amodol ar sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel yr amlinellir uchod h.y. bod y Pwyllgor yn teimlo'n gryf na fedrai gefnogi'r cynnydd gormodol a gynigir yn lefelau'r gydnabyddiaeth ariannol fel y nodir yn adroddiad drafft y Panel ar gyfer 2022/23 (ar wahân i'r argymhellion ynghylch y cyfraniadau tuag at gost gofal a chymorth personol). Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol i'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2 sef cyflwyno'r sylwadau uchod ar benderfyniadau drafft adroddiad y Panel ar gyfer 2022/23 i'r Panel fel rhan o'r broses ymgynghori a fyddai'n dod i ben ar 26 Tachwedd 2021.<br><br>Ar bwynt o eglurhad am adrodd gwybodaeth am Silent Valley | |

| | | |
|---|---|---|
| | Waste Services, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod yr oruchwyliaeth o'r cwmni wedi ei gryfhau ers 2017 ac y bu adroddiadau i'r broses Craffu, yn fwyaf diweddar ym mis Hydref 2021, a bod y Pwyllgor Gweithredol wedi ystyried yr wybodaeth honno'n ddilynol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur, er y derbyniwyd adroddiadau drwy'r broses craffu ynghylch Bwrdd Silent Valley, na chafodd unrhyw ddiweddariad eu rhoi i'r Cyngor gan yr Aelodau unigol hynny a benodwyd yn Gyfarwyddwyr Bwrdd. | |
| **No. 31** | **<u>CYNLLUNIO, GWEINYDDIAETH A CHOST ETHOLIADAU LLEOL – 5 MAI 2022</u>**<br><br>Datganwyd buddiant gan Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr (Swyddog Canlyniadau), Rhian Hayden, Prif Swyddog Adnoddau (Dirprwy Swyddog Canlyniadau) ac Andrea Jones, Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Dirprwy Swyddog Canlyniadau) ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon o fusnes, ar y ddealltwriaeth y byddent yn gadael pe dymunai Aelodau drafod mater ffioedd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd T. Smith y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr (yn rôl Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol).<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr (yn rôl Swyddog Canlyniadau Etholiadau Llywodraeth Leol) am yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y gofynion adnoddau a chyllid yng nghyswllt yr etholiadau lleol arfaethedig ym mis Mai 2022. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth am daliadau staff a rhoddodd esboniad o'r prif gyfrifoldebau wrth weinyddu etholiadau lleol yn effeithiol.<br><br>Cyfeiriwyd at Adran 2 yr adroddiad a hysbyswyd Aelodau yn nhermau Cyfrif a Datgan Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol a hefyd y Cynghorau Tref/Cymuned, sydd yn yr un modd â'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru, y cynhelir hyn y diwrnod ar ôl y bleidlais h.y. ddydd Gwener 6 Mai 2022.<br><br>Yn ychwanegol, unwaith y cyhoeddwyd yr Hysbysiad Etholiad ar 18 Mawrth 2022, cynigiwyd wedyn y byddai busnes ffurfiol y | |

Cyngor yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad h.y. ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd o'r cyngor neu bwyllgorau, os nad oes fusnes brys sydd angen ei drin.

Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ymlaen drwy ddweud, ers paratoi'r adroddiad yn cadarnhau'r adroddiad, y derbyniwyd y Datganiad Gweinidogol y byddai Blaenau Gwent yn un o'r pedwar awdurdod ynghyd â Thorfaen, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr a fyddai'n cymryd rhan Peilot Pleidleisio Cynnar ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn y Gwanwyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda Choleg Gwent i dargedu pleidleiswyr tro cyntaf 16-17 oed a sefydlu gorsaf bleidleisio cynnar ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher cyn y diwrnod pleidleisio arferol ddydd Iau 5 Mai. Nodwyd y caiff pleidleisio cynnar ei ymestyn i'r holl breswylwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn y Fwrdeistref Sirol ac y cyhoeddir cyfathrebiad i'r diben hwnnw ar yr adeg priodol. Er fod cost y cynllun peilot yn ychwanegol at y gyllideb o £140,000, byddai'r gwariant ychwanegol hwn yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru ac felly ni fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ariannol ar gyllideb y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ymgysylltu â Chynghorwyr, cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at yr adroddiad sy'n nodi'r prif feysydd gweithgaredd a dywedodd fod un o'r elfennau hyn yn cynnwys briffiadau i ymgeiswyr ac asiantau. Cynhelir briffiadau yn gynnar yn y flwyddyn newydd gyda darpar ymgeiswyr a chynhelir briffiad pellach i ymgeiswyr yn dilyn enwebiadau. Felly byddai nifer o gyfleoedd i ymgeiswyr dderbyn briffiadau ar y cynllun peilot a sut y byddai'r pleidleisio cynnar yn gweithredu yn ymarferol.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai'r isafswm oed oedd 18 ar gyfer i unigolyn sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach am blismona cofrestr etholiadol yng ngorsaf bleidleisio'r coleg, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y defnyddiwyd system o'r enw Modern Democracy ac mae hyn yn galluogi swyddogion llywyddu i gael mynediad i'r gofrestr etholiadol fyw drwy lechi electronig ar draws y Fwrdeistref Sirol. Byddai angen diweddaru'r cofrestri hynny ar ddiwrnod pleidleisio ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher h.y. cyn i'r pleidleisio agor ar y dydd Iau er mwyn sicrhau na allai unigolyn bleidleisio ddwywaith. Her bellach oedd y byddai angen i'r papurau pleidleisio fod ar gael ar gyfer pob un ward ar gyfer pleidleisio cynnar; fodd bynnag diben

| | | |
|---|---|---|
| | y cynllun peilot yw canfod y problemau a'r datrysiadau posibl ar gyfer cyflwyno pleidleisio cynnar fel rhan mwy safonol o bleidleisio yn y dyfodol ac y caiff gwaith ei wneud gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddynodi'r datrysiadau hynny.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwywyd Opsiwn 3(a), sef:<br>- nodi'r wybodaeth a roddwyd; a<br>- bod y Cyngor yn cytuno i roi adnoddau a chyllido'r Etholiad a'r costau cysylltiedig, fel y nodir yn yr adroddiad. | |
| **No. 32** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/2021**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod pan oedd yn cael ei ystyried.<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i baratoi adroddiad blynyddol ar weithredu ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Yr arfer yw i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yr adroddiadau perfformiad chwarterol ond mae'r pandemig wedi tarfu ar y dull adrodd. Yn ychwanegol, dim ond ddechrau'r hydref yr adroddwyd gwybodaeth 2019/20 gan y cafodd hyn ei ohirio oherwydd y pandemig.<br><br>Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymlaen drwy ddweud fod yr adroddiad yn rhoi sylw i'r cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021 a rhoddodd fanylion sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y pandemig, a'r cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd. Nodwyd y cafodd y manylion yn yr adroddiad ei ddarparu'n flaenorol i Aelodau fel rhan o ymateb y Gyfarwyddiaeth i'r pandemig.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd gwaith y gyfarwyddiaeth ei ddilysu mewn modd cadarnhaol gan Wiriad Sicrwydd Edrych yn Ôl Arolygiaeth Gofal Cymru a gynhaliwyd ar 17 – 21 Mai yn eu llythyr 11 Mehefin 2021. Roedd yr ymweliad hwn wedi ystyried pa mor dda yr oedd yr awdurdod lleol wedi | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflawni ei swyddogaethau statudol i gadw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr oedd angen cymorth yn ddiogel a hyrwyddo llesiant yn ystod y pandemig. Roedd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried yr adroddiad ar 7 Hydref 2021 ac wedi cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Croesawodd Aelod yr adroddiad a mynegodd ei ddiolch i staff a swyddogion y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol oedd wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y cyfnod 2-flynedd i gefnogi'r llai abl yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn amlygu ac yn dangos parodrwydd, hyblygrwydd a phenderfyniad staff yn gweithio mewn partneriaeth ar draws yr adran sydd wedi diogelu mwyafrif gwasanaethau yn ystod y pandemig a diogelu'r mwyaf bregus yn y gymuned. Roedd y gwaith hwn wedi parhau dan bwysau a heriau parhaus oedd yn newid yn ddyddiol a mynegodd ei werthfawrogiad personol i bawb oedd yn gysylltiedig. ar hynny cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'i gyflwyno i'r Arolygiaeth Gofal Cymru. | |
| **No. 33** | **<u>DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGU DATGANIAD POLISI GAMBLO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad a dywedodd y cynhelir adolygiad o'r Polisi Gamblo bob tair blynedd. Nodwyd fod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol ar 28 Hydref 2021 wedi ystyried a chymeradwyo'r polisi diwygiedig. Os byddai'r polisi yn cael ei weithredu, byddai'n dod i rym ar 31 Ionawr 2022.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd mai dim ond un cais yn ymwneud â mân welliant gweinyddol y gofynnwyd amdano. Nodwyd y caiff gwelliannau eu hamlygu fel arfer o fewn y ddogfen polisi ond na dderbyniwyd unrhyw welliannau hyd yma. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Polisi Gamblo a adolygwyd. | |
| **No. 34** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan</u>**<br>- penodi dau gynrychiolydd i'r uchod.<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer y swyddi hyn.<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol ar gyfrer Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol</u>**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 12 Hydref 2021 i benodi:<br><br>**Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort** – Mr Rhion Hollister<br><br>**Ysgol Gynradd Sofrydd** – Mr Paul Maddy<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 15 Tachwedd 2021 i benodi:<br><br>**Canolfan yr Afon –** Mr. Richard Barrett; Ms. Lesley Bush; Ms. Jenna Underey; Ms. Hannah Moncreiff<br><br>**Ysgol Gynradd Coed-y-Garn** – Mr. Raffi Abbas<br><br>**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr -** Cynghorydd D. Davies<br><br>**Ysgol Gynradd Bryn Bach** – Ms. Diane Rowberry<br><br>Dilynodd trafodaeth am gylch gorchwyl y Panel Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol a'r broses bleidleisio a ddefnyddiwyd yng nghyfarfod y Panel ar 15 Tachwedd 2021 ar gyfer penodi llywodraethwyr ychwanegol i ysgol neilltuol a gafodd hysbysiad rhybudd statudol.<br><br>Cadarnhawyd nad yw'n rheidrwydd cyflwyno'r ceisiadau hyn i'r Panel ond y cawsant eu rhannu er gwybodaeth er mwyn i'r Panel ddeall y dull gweithredu a ddilynir. Nododd y Cyfarwyddwr | |

| | | |
|---|---|---|
| | Corfforaethol Addysg y sylwadau a wnaed a byddai'n egluro sefyllfa yr apwyntiadau hyn ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ei ddealltwriaeth o'r cyngor a gafwyd gan Adran Cefnogi Llywodraethau y Gwasanaeth Cyflawni Addysg oedd fod yr awdurdod o fewn ei hawliau i benodi llywodraethwyr ychwanegol heb gynnal pleidlais.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r apwyntiadau uchod. | |
| **No. 35** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 36** | **<u>RÔL ANWEITHREDOL</u>**<br><br>Datganodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fuddiant yn yr eitem hon a gadael y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol fod yr adroddiad sy'n ymwneud â materion staffio yn cael ei dderbyn a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cefnogi cais y Rheolwr Cyfarwyddwr i gymryd rôl anweithredol Aelod Annibynnol ar y Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 37** | **PWYLLGOR APWYNTIADAU – SWYDDOGION JNC**<br><br>Gan roi ystyriaeth i’r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth hon ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy’n ymwneud â materion staffio a chynnig swydd i Sarah King ar gyflog yn unol â JNC 3 (£63,742 - £70,115). | |